

## Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu Digidol

Mae Undeb Bedyddwyr Cymru'n awyddus i benodi unigolyn(lion)\* i weithio gyda'r Undeb mewn dau faes allweddol cenhadaeth a chyfathrebu digidol.

**\* Mae'n bosib ystyried yr hyblygrwydd o rannu swydd.**

- Bydd yr ymgeisydd(wyr) llwyddiannus yn gweithio gyda'r Ysgrifennydd Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Cenhadaeth i:
  - a) gefnogi, datblygu a gweithredu rhaglen strategol o genhadaeth ymysg Eglwysi a Chymanfaoedd a
  - b) bod yn gyfrifol am gyfathrebu effeithiol, a chynorthwyo'r Undeb ac Eglwysi i ymgysylltu â chenhadaeth Duw mewn oes dechnolegol.
- Dylai ymgeiswyr feddu ar sgiliau cyfathrebu, cyfryngau digidol a chreadigol cryf, yn ogystal ag angerdd am ymgysylltu cenhadol.
- Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn Gristion sy'n ymarfer y ffydd ac yn barod i gefnogi amcanion elusennol ac egwyddorion Bedyddiedig Undeb Bedyddwyr Cymru. Oherwydd natur y swydd, mae hyn yn Ofyniad Galwedigaethol Penodol.
- Mae'r swydd yn cynnig patrymau gwaith hyblyg gyda chyfleon i weithio o gartref a bydd hefyd disgwyliad i weithio ar draws Cymru.
- Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol.
- Mae Undeb Bedyddwyr Cymru'n gweithredu cyfle cyfartal i bawb ac yn annog ceisiadau o bob sector o'r gymuned.

**Cyflog: £29,200 – £31,031**

**Dyddiad cau: 17<sup>eg</sup> Ebrill 2023**

**Dyddiad cyfweld: 26<sup>ain</sup> Ebrill 2023**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:  
Parch Simeon Baker - Cyfarwyddwr Cenhadaeth

Ffôn: 0345 222 1514 neu ebost: [simeon@ubc.cymru](mailto:simeon@ubc.cymru)

## Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu Digidol

### Swydd Disgrifiad

#### Y Fframwaith Weledigaethol

- I hyrwyddo egwyddorion ac arferion Undeb Bedyddwyr Cymru.
- I gefnogi ac annog cenhadaeth ymysg Eglwysi a Chymanfaoedd Undeb Bedyddwyr Cymru gyda'r nod o annog gweinidogion ac Eglwysi i rannu'r ffydd Gristnogol yn eu cymunedau lleol.
- I annog partneriaethau ac i roi'r adnoddau i Eglwysi fedru gwneud cenhadaeth mewn ffyrdd arloesol.
- I ddatblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu greadigol o ddylunio i gyflwyno ar gyfer Undeb Bedyddwyr Cymru gan gynnwys llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol a chynnwys y wefan.
- I gefnogi Eglwysi mewn Byd digidol trwy hyfforddiant ac arfogi.

#### Y Fframwaith Ymarferol:

Fel aelod o dîm Undeb Bedyddwyr Cymru byddwch yn:

##### 1. Cenhadaeth

- Gweithio o dan gyfarwyddyd Cyfarwyddwr Cenhadaeth yr enwad i weithredu gweledigaeth genhadol, strategaeth a phrosiectau ar draws Cymru.
- Barod i ddatblygu strategaeth genhadol ar gyfer denu plant a phobl ifanc Cymru a datblygu mentrau effeithiol er mwyn eu cyrraedd.
- Barod i weithio mewn partneriaeth â Bwrdd y Genhadaeth er mwyn cyflawni ei fwriadau a'i amcanion.

- Bod yn greadigol a chefnogol i fentrau cenhadol o fewn yr Undeb neu Gymanfaoedd ac i gyflwyno a gweithredu adnoddau cenhadol.
- Barod i gefnogi eglwysi yn eu mynegiant mewn cyd-destun gwledig a threfol.
- Barod i gefnogi hyfforddiant a datblygiad gweinidogion wrth iddynt ymateb i her cenhadaeth o fewn ein Heglwysi, Cymanfaoedd ac Undeb.

## 2. Cyfathrebu Digidol

- Datblygu a gweithredu strategaeth cyfathrebu digidol effeithiol i gefnogi Eglwysi a Chymanfaoedd yn cynnwys llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol a chynnwys y wefan.
- Llunio a chyflwyno cyfathrebu effeithiol yn cynnwys postio a chyhoeddiadau gan ddefnyddio cronfa ddata integredig Undeb Bedyddwyr Cymru.
- Darparu hyfforddiant ac anogaeth i Eglwysi yn y defnydd o dechnoleg wrth iddynt ymgysylltu â'r Byd digidol.
- Dyletswyddau rhesymol eraill a gyfarwyddir gan y Cyfarwyddwr Cenhadaeth.

## Manyleb Person: Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu Digidol

Nodweddion a phriodoleddau hanfodol

	Hanfodol	Dymunol
Nodweddion Personol	<p>Meddu'r gallu i arddangos argyhoeddiad Cristnogol personol.</p> <p>Ymroddiad tuag at Eglwys Gristnogol.</p> <p>Meddu ar fesur o barch ac edmygedd o fewn y gymuned Gristnogol.</p> <p>Meddu angerdd mewn perthynas â'r gwaith o galonogi a chynorthwyo eglwysi ar gyfer cenhadaeth gyfoes.</p> <p>Ymrwymiad i gyfathrebu'n greadigol, gydag egluder a chywirdeb.</p> <p>Yn hyderus a chyfeillgar o ran eich anian ac yn barod i galonogi eraill.</p> <p>Gweithio'n dda fel rhan o dîm.</p> <p>Yn amyneddgar a doeth yn eich ymwneud â phobl.</p>	<p>Aelod o eglwys leol gyda'r Bedyddwyr neu'n barod i ymaelodi.</p>
Profiad	<p>Profiad o gynrychioli mudiad yn allanol.</p>	<p>Profiad o gyflwyno trwy fideo gynadledda.</p>

	<p>Meddu ar brofiad o baratoi a chyflwyno gwybodaeth i ystod eang o gynulleidfaoedd.</p> <p>Y gallu i weithio'n agos gydag arferion cenhadaeth mewn cyd-destun Eglwys leol.</p> <p>Hanes a phrofiad o fedru cyfathrebu un i un.</p> <p>Profiad mewn amrediad o ddulliau cyfathrebu digidol a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Sgiliau ysgrifennu creadigol.</p> <p>Profiad sylfaenol o ddylunio gwefan.</p> <p>Yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg - llafar ac ysgrifenedig.</p>	<p>Lefel uchel o gymhwysedd yn y defnydd o feddalwedd cyflwyno.</p> <p>Dealltwriaeth o dueddiadau cenhadol a'r heriau sy'n wynebu Eglwysi heddiw.</p> <p>Rhywfaint o brofiad arwain Eglwys.</p> <p>Meddu ar ddealltwriaeth o strwythurau a phrosesau eglwysig, yn arbennig felly o fewn y teulu Bedyddiedig.</p> <p>Profiad o hyfforddi eraill trwy ddefnyddio amrywiol gyfryngau a thechnegau.</p> <p>Profiad dylunio yn defnyddio Adobe neu becynnau meddalwedd tebyg.</p> <p>Cymhwysedd i ddefnyddio Wordpress a meddalwedd plygio mewn.</p> <p>Cymraeg ysgrifenedig o safon da gan gynnwys rhywfaint o brofiad prawfddarllen.</p>
--	---	---

Addysg	Wedi eich addysgu i lefel diploma neu radd.	Profiad o adfyfyrion diwinyddol.  Tystysgrif sgiliau iaith.
Sgiliau / Gallu	<p>Hunan-gymhelliad, y gallu i weithio ar eich pen eich hun yn ogystal â bod yn aelod effeithiol o dîm.</p> <p>Yn drefnus ac yn medru cyflawni tasgau a sgiliau o fewn amser penodol.</p> <p>Y gallu i gymryd at yr awenau a gwneud penderfyniadau heb gymhelliad.</p> <p>Y gallu i gefnogi a chalonogi eraill.</p> <p>Yn gallu teithio i wahanol rannau o Gymru.</p>	